

**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Fawr, Llandybïe ar ddydd Mercher, Tachwedd 13<sup>eg</sup>, 2019 am 7.10 yh.**

**Presennol**

Cynghorwyr	I. Rh. Llewelyn	Mrs K.D.L Davies	W.D. Evans
	R. A. Davies	D. Hopkins	Mrs J.E Collins
	Mrs Ll. Latham	Mrs C. Thomas	

**634.**

**Datganiadau o Fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**635.**

**Ffigurau'r Gyllideb ar gyfer Praesept 2020 -21**

Roedd y Clerc eisoes wedi dosbarthu copiâu manwl yn cynnwys y ffigurau cyllidebol a awgrymir, a balansau diwedd blwyddyn rhagamcanol cyfrifon y Cyngor.

**636.**

**Prosiectau Cyfalaf**

Roedd yr Aelodau wedi adolygu blaenoriaethau'r Cyngor parthed â phrosiectau cyfalaf ac **argymhellwyd** cymeradwyo'r canlynol i raglen y flwyddyn nesaf.

**Prosiectau ar gyfer 2020/2021**

1. Trwsio meinciau ochr y ffordd ac yn y parciau	£10000
2. Darparu matiau blodau gwyllt – heolydd a pharciau	£2000
3. Plannu coed brodorol yn y parciau lle y mae lle i wneud hynny	£3000
5. Placiau i rai o'r mudiadau sy'n derbyn grant	£1000
6. Amnewid ffensys ym Mharciau Penygroes a Saron	£12000

**637.**

**Parciau a Mannau Chwarae**

Hefyd, **argymhellwyd** bod £50,000 yn cael ei ddyrannu at ddiben atgyweirio a chynnal a chadw'r parciau.

**638.**

**Crynodeb o ffigurau'r Gyllideb: 2020-2021**

<b>INCWM</b>	<b>£</b>
Praesept	180,000
Llog: Lloyds	150
Llog: cyfrifon buddsoddi	400
Hawliau Tramwy	3,000

Cytundebau Llogi	4,700
Adhawlio TAW	25,000
	<u>213,250</u>

**GWARIANT**

Cyflogaeth	45,889
Cost y Safle	17,650
Costau Swyddfa	4,750
Costau'r Aelodau	3,100
Gwasanaethau a Thanysgrifiadau	10,000
Taliadau Adran 137	
Taliadau yn unol â phwerau eraill	
Mannau Agored Cyhoeddus	
Neuaddau Pentref	
Claddfeydd	18,000
Hawliau Tramwy – cynnal a chadw	
Hawliau Tramwy – gwelliannau	10,000
Goleuo cyhoeddus - ynni	
Goleuo cyhoeddus - gwelliant	8,500
Cyfleusterau Cyhoeddus	13,000
Parciau – atgyweirio ac amnewid	50,000
Torri'r glaswellt/ casglu sbwriel/ cynnal a chadw cyfleusterau	28,000
Prosiectau Datblygu Cymunedol	28000
Cyfanswm	<u><u>261,889</u></u>

Bydd y diffyg o £ 48,639 yn cael ei dynnu o gronfeydd wrth gefn y Cyngor.

**Argymhellwyd** bod y symiau uchod, sy'n cynnwys codiad cyflog un pwynt i'r Clerc a'r Swyddog Gweinyddol, yn cael eu doddi gerbron cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor Llawn yn Tachwedd, 2019.

Hefyd, **argymhellwyd** bod y Cronfeydd wrth Gefn yn cael eu gosod fel a ganlyn:

**Cronfeydd wrth Gefn a Ddyranwyd**

£150 mil – parciau a manau chwarae

Eisoes wedi'u dyrannu o'r cronfeydd wrth gefn:

1) Rheilffordd Calon Cymru - hysbysfwrdd	£1000
2) Clwb Rygbi Penygroes - llif-oleuadau	£2000
3) Amnewid goleuadau'r stryd i lampau LED	£15,985

## Y Gronfa wrth Gefn Gyffredinol - £96 mil

Hefyd, cytunwyd **argymell** i'r Cyngor llawn bod y praesept yn aros fel ag y mae, sef £180,000

**639.**

### Adolygiad o'r gweithdrefnau Archwilio Mewnol

Ystod yr Archwiliad Mewnol – Atgoffwyd yr Aelodau taw Mr Lyn Llewelyn yw archwiliwr mewnol penodedig Cyngor Cymuned Llandybïe. Penderfynwyd, mewn cyfrafod blaenorol o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar Fai 29<sup>ain</sup> 2019, y byddai'n parhau yn ei swydd fel yr archwilydd mewnol ar gyfer 2019/2020. Roedd yr Aelodau wedi adolygu'r llythyr 'Cynnig Gwasanaethau Archwilio Mewnol', a oedd yn cyfeirio'n benodol at ei annibyniaeth a'i gymhwysedd, ei fod yn glynu at y cynllun archwilio mewnol, a'i ffoedd.

Annibyniaeth – Hysbyswyd yr Aelodau gan y Clerc y bydd Mr Llewelyn yn parhau i gynnal yr archwiliad heb ddylanwad gormodol neu wrthdaro buddiannau.

Cymhwysedd – Mae Mr Lyn Llewelyn wedi ymgymryd â'r archwiliad mewnol ar ran y Cyngor am flynyddoedd lawer ac yn hollol gymwys i wneud y gwaith. Mae ganddo flynyddoedd lawer o brofiad o Lywodraeth Leol, mae'n gyn Ddirprwy Prif Weinyddwr a Swyddog Cyllid Un Llais Cymru ac yn Glerc i ddau Gyngor lleol.

Perthynas – Nid oes gan Mr Llewelyn unrhyw gyswllt â'r Clerc/ y Swyddog Cyllid Cyfrifol neu unrhyw Gynghorydd Cymuned.

Cynllunio, ac Adrodd yn ôl, yr Archwiliad – Roedd yr Aelodau wedi **penderfynu** derbyn adroddiad yr Archwilydd Mewnol ar gyfer 2018/2019 yng nghyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar Fai 29<sup>ain</sup> 2019:-

*Darllenodd y Clerc adroddiad a sylwadau yr Archwilydd Mewnol, a oedd yn datgan bod yr holl brofion rhagnodedig ynghylch systemau rheoli mewnol y Cyngor wedi'u cwblhau'n foddhaol. Nid oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu gosod gerbron y Cyngor yn codi o'r archwiliad, ac roedd yr archwilydd wedi llenwi adran briodol y Ffurflen Flynyddol er mwyn cofnodi ei ganfyddiadau. Roedd yr Archwilydd hefyd wedi dweud bod y cofnodion ariannol yn dal i gael eu cadw i safon broffesiynol uchel, ac roedd y trywydd archwilio yn ardderchog.*

Roedd yr Aelodau wedi **argymell** nad oedd angen unrhyw gynllun gweithredu, archwiliad neu adolygiad mewnol pellach ynghylch yr adroddiad, a bod y system bresennol yn effeithiol ac effeithlon wrth sicrhau bod gweithdrefnau archwilio mewnol Cyngor Cymuned Llandybïe yn ddigon at ddibenion rheoli.

**640.**

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.40 yh.